Astudiaeth achos:
Grant Adnewyddu Menter

Rhanbarth
Wrecsam

Sector
Gwasanaeth

Gwerth y prosiect
£9,888

GATEWEN TRAINING

Mae cydweithio wedi bod yn allweddol i lwyddiant cenhadaeth cwmni hyfforddi i greu gweithlu lleol sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Nid yw busnesau bob amser yn bodoli i wneud elw iddyn nhw eu hunain yn unig. Gallant hefyd wneud gwahaniaeth mawr i'r economi leol gyfan, yn enwedig os ydynt yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill.

Mae Gatewen Training yn gweithio saith diwrnod yr wythnos i fynd i'r afael â'r prinder cenedlaethol o oddeutu 100,000 o yrwyr Cerbydau Nwyddau Mawr a Cherbydau Nwyddau Trwm. Yn benodol, maen nhw'n paratoi Gogledd Cymru i fanteisio ar borthladd rhydd yng Nghaergybi yn y dyfodol – ac yn sefydlu'r r hanbarth fel canolfan logisteg fawr.

Ond roedd eu nod o hyfforddi cannoedd o yrwyr newydd yn cael ei lesteirio gan ddiffyg man bagio cerbyd pwrpasol ar gyfer rhan 3a y prawf gyrru ymarferol. Gan weithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn, fe wnaethon nhw ddod o hyd i safle addas ym Marics Hightown yn Wrecsam.

Talodd grant Adnewyddu Menter am ffensio a'r peintio llinellau cywir sydd ei angen i alluogi ymgeiswyr i "ollwng a dal" eu trelars, symud o gwmpas conau a bagio cerbyd ar ongl. Mae'n golygu nad yw Gatewen bellach yn ddibynnol ar y ganolfan brawf swyddogol yn Llai.

"Mae prinder cenedlaethol o arholwyr," meddai'r cyfarwyddwr Julian Hughes. "Drwy greu ein hardal bagio cerbydau ein hunain, rydyn ni wedi gallu hyfforddi ein hyfforddwyr i wneud y rhan hon o'r prawf yn fewnol. Mae'n dangos y gallwn i gyd gyflawni mwy drwy gydweithio. Mae'n enghraifft wych o feddwl cydgysylltiedig iawn lle mae partneriaid yn gweithio tuag at nod cyffredin."

Gwariwyd gweddill y grant ar greu swyddfa newydd ym mhrif swyddfa 7,500 troedfedd sgwâr y cwmni yn Llai gyda gliniaduron a thabledi – sy'n caniatáu i hyfforddwyr gyflwyno sesiynau hyfforddi'n electronig a gweithio o bell os oes angen.

Roedd hefyd yn ariannu cynllun lliwiau trelars newydd trawiadol a oedd yn darparu hysbysebion amhrisiadwy am ddim wrth i hyfforddeion Gatewen deithio ar hyd ffyrdd Gogledd Cymru.

"Mae'r cyfleuster newydd yn Hightown a'r gwelliannau eraill wedi ein galluogi i gynyddu ein capasiti'n sylweddol, cyflogi pedwar aelod newydd o staff a threblu ein trosiant yn ystod y 12 mis diwethaf," meddai Julian. "Efallai y byddem wedi gwneud y buddsoddiad ein hunain ond byddai wedi cymryd llawer mwy o amser i ni.

"Mae angen i bob un ohonom weithio gyda'n gilydd i greu gweithlu lleol sy'n addas i'r diben. Mae'r cymorth a'r gefnogaeth a ddarperir i fusnesau bach yng Nghymru gan sefydliadau fel Cadwyn Clwyd yn newid pethau yn syfrdanol."

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas
LEADER
Llywodraeth Cymru
Welsh Government